



# Adran Gwaith a Phensiynau

## Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol o'r Aseiad Gallu i Weithio – blwyddyn pump

Cyflwynwyd gerbron y Senedd  
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau  
ar Orchymyn Ei Mawrhydi  
Chwefror 2015

Cm 9014



## **(h) Hawlfraint y Goron 2015**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3) neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid cael caniatâd y deiliad hawlfraint priodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications/government-response-to-the-work-capability-assessment-independent-review-year-5](http://www.gov.uk/government/publications/government-response-to-the-work-capability-assessment-independent-review-year-5)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

**ESA Policy Team  
Department for Work and Pensions  
2nd Floor  
Caxton House  
6-12 Tothill Street  
London  
SW1H 9NA**

**E-bost: [wca.evidence@dwp.gsi.gov.uk](mailto:wca.evidence@dwp.gsi.gov.uk)**

Gwe ISBN 978-1-78425-480-3

Rhif Adnabod 17021511      02/15

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

## Cynnwys

<b>Rhagair Gweinidogol</b>	4
<b>Pennod 1 Cyflwyniad</b>	5

### Rhagair Gweinidogol

Rwyf am ddiolch i Dr Paul Litchfield am ei gyfraniad sylweddol i wella'r Asesiad Gallu i Weithio (WCA) sydd wedi arwain at gyhoeddiad y pumed a'r adolygiad annibynnol olaf ym mis Tachwedd diwethaf.

Gwnaeth Dr Litchfield amlygu ac archwilio sut y ma llawer o'r newidiadau a argymhellir a'u rhoi ar waith ers yr adolygiad annibynnol cyntaf yn 2008 wedi gwella gweithrediad y WCA a'r ffordd y mae'n cael ei ddeall.

Gwnaeth yr adolygiad terfynol argymell rhai gwelliannau pellach i'r asesiad, ond hefyd cydnabod yr angen am gyfnod o sefydlogrwydd ar gyfer y WCA a dywedodd:

“... fy nghyngor fyddai gadael i'r WCA ar hyn o bryd cael cyfnod o sefydlogrwydd - mae'n bell ffordd o fod yn berffaith ond nid oes unrhyw asesiad gwell ar gael”

Mae'r WCA yn rhan annatod o ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau bod cymaint o bobl ag sy'n medru gwneud hynny yn cymryd rhan mewn cyflogaeth a bod y rhai na allant weithio yn cael y cymorth priodol.

Rwyf yn cytuno â dadansoddiad Dr Litchfield o'r meysydd allweddol i'w harchwilio ymhellach: y nifer cynyddol o bobl yn y Grŵp Cymorth (yn enwedig pobl iau); yr angen i sicrhau bod cyfathrebiadau cystal ag y gallant fod (yn enwedig ar gyfer hawl wyr sy'n fwy agored i niwed); a gwell cymorth i hawl wyr sydd ag anableddau dysgu.

Y dasg fydd i gyflawni'r uchelgais ar gyfer y DU i fod yn arweinydd byd o ran cefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i wireddu eu llawn botensial. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau gyda Hyderus o ran Anabledd, cyflwyno'r gwasanaeth Ffit i Weithio a gwella'r mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Rwy'n arbennig o falch bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi dechrau gweithio llawer mwy agos gyda'r Adran Iechyd, yn enwedig ar ddarparu gwell cymorth i bobl â chyflyrau iechyd meddwl.

**Mark Harper**

**Gweinidog Gwladol dros Bobl Anabl**

# Cyflwyniad

# 1

Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r bumed a'r adolygiad annibynnol olaf yr Asesiad Gallu i Weithio (WCA); yr ail i gael ei gynnal gan Dr Paul Litchfield. Dr Litchfield yw Prif Swyddog Meddygol a Chyfarwyddwr Iechyd, Diogelwch a Lles ar gyfer Grŵp BT, yn gymrawd o Goleg Brenhinol y Meddygon a Chyfadrann Meddygaeth Alwedigaethol ac fel y cyfryw yn dod ag ehangder o brofiad ac arbenigedd i'r adolygiad hwn.

Mae Dr Litchfield wedi adeiladu ar waith y pedwar adolygiad annibynnol blaenorol<sup>1</sup> ac yn yr adolygiad terfynol hwn yn adlewyrchu ar rai o'r newidiadau allweddol, yn archwilio effaith ar ganlyniadau'r WCA ac yn ystyried pa wersi a ddysgwyd ar gyfer dylunio unrhyw asesiad yn y dyfodol. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar y canlynol:

- Datblygiad yr Asesiad Gallu i Weithio ers 2008
- Y Grŵp Cymorth
- Canfyddiadau
- Gwneud Penderfyniadau a phrosesau
- Grwpiau sy'n haeddu sylw arbennig
- Cyfeiriad yr Asesiad Gallu i Weithio yn y dyfodol.

Ni wnaed sylw ar farn Dr Litchfield ar gyfeiriad y WCA yn y dyfodol yn yr ymateb hwn.

Gwnaeth Dr Litchfield 33 o argymhellion yn y pumed adolygiad, 28 ohonynt yn ymwneud â'r Adran Gwaith a Phensiynau ac o fewn cwmpas yr ymateb hwn. Mae'r pump arall yn ymwneud â'r Adran Datblygu Gymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon a bydd yn cael sylw fel rhan o ymateb y weinyddiaeth hynny ei hun i adolygiad Dr Litchfield.

<sup>1</sup> Cynhaliwyd y tri adolygiad cyntaf gan yr Athro Malcolm Harrington

## 6 Cyflwyniad

Yn ystod ei adolygiad gofynnodd Dr Litchfield ynghylch archwilio'r WCA yn y dyfodol ar ôl yr adolygiad annibynnol statudol terfynol. Mae Pennod 7 yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran yr argymhellion o adolygiadau blaenorol. Rhagwelir y bydd y Pwyllgor Dethol Gwaith a Phensiynau yn monitro gweithrediad y pumed adolygiad annibynnol fel rhan o'i rôl o archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi'r Adran Gwaith a Phensiynau a'i chyrrff cyhoeddus cysylltiedig.

ISBN 978-1-78425-480-3  
(h) Hawlfraint y Goron 2015  
Cyhoeddwyd gan yr Adran  
Gwaith a Phensiynau  
Chwefror 2015  
[www.dwp.gov.uk/cymraeg](http://www.dwp.gov.uk/cymraeg)